

Perchennog/Meddiannydd

Gofynnwch am/Please Ask For: Martyn Tanner

Ffôn: Dd/B

Fy Nghyf/ My Ref:
IF799-491/MT

Eich Cyf/ Your Ref:

Dyddiad/ Date:
23 Medi 2025

Annwyl Berchennog/Feddiannydd,

Heol Talbot a Chlos Talbot, Llantrisant - Newidiadau i Gilfachau Parcio i Ddeiliaid Trwydded Preswyl yn Unig

Mae'r Cyngor yn cynnig cyflwyno newidiadau i'r lleoedd parcio presennol ar gyfer deiliaid trwyddedau preswyl yn unig ar Heol Talbot, Llantrisant, a chyflwyno lleoedd parcio newydd ar gyfer deiliaid trwyddedau yn unig, a lleoedd aros cyfyngedig, ar Glos Talbot, Llantrisant.

Mae'r newidiadau'n angenrheidiol er mwyn sicrhau bod modd defnyddio'r ardal droi oddi ar Heol Talbot, Llantrisant, ger ei chyffordd â'r A4119 sy'n cael ei rheoli gan signalau traffig. Bydd y lleoedd parcio presennol ar y safle'n cael eu symud i Glos Talbot, a byddan nhw'n parhau i fod at ddefnydd unigryw deiliaid trwydded parth 402.

Cynigir llinellau melyn dwbl hefyd i ddisodli'r cilmachau parcio presennol i ddeiliaid trwyddedau preswylwyr o fewn yr ardal droi, ac ar Glos Talbot, er mwyn hwyluso llif rhydd y traffig.

Mae modd gweld manylion y cynigion yma yn llun **TM25/402/IC** sydd ynghlwm wrth y llythyr yma, neu ar-lein: www.rctcbc.gov.uk/traffig.

Rydw i wedi amgáu ffurflen ymateb ynghyd ag amlen barod er hwylustod i chi. Fel arall, mae croeso i chi e-bostio gwasanaethautraffig@rctcbc.gov.uk. Anfonwch eich sylwadau yn ôl erbyn 14 Hydref 2025.

Os na fyddwch chi wedi cyflwyno ymateb erbyn hynny, bydda i'n ei chymryd hi'n ganiataol nad ydych chi'n gwrthwynebu'r cynigion.

Prifffyrdd, Gofal y Strydoedd a Thrafnidiaeth
Highways, Streetcare and Transportation
Llawr 2, 2 Llys Cadwyn, Pontypridd, CF37 4TH
Floor 2, 2 Llys Cadwyn, Pontypridd, CF37 4TH

Ffôn/Tel: 01443 425001

Stephen Williams BSc(hons)MBA, GDipLaw, PGDipLegalPractice, MCI0B
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Prifffyrdd, Gofal y Strydoedd a Thrafnidiaeth | Director for Highways, Streetcare and Transportation Services

Dewiswch iaith a diwyg eich dogfen | Available in alternative formats and languages

Croesawn ohebu yn Gymraeg a fydd gohebu yn y Gymraeg ddim yn arwain at oedi. Rhowch wybod inni beth yw'ch dewis iaith e.e Cymraeg neu'n ddwyieithog.
We welcome correspondence in Welsh and corresponding with us in Welsh will not lead to a delay. Let us know your language choice if Welsh or bilingual.



MAE EICH DATA O BWYS www.rctcbc.gov.uk/diogeludata
YOUR DATA MATTERS www.rctcbc.gov.uk/dataprotection



Fydd y Cyngor ddim yn ymateb yn ffurfiol i'ch sylwadau ar hyn o bryd. Fodd bynnag, bydd eich sylwadau yn llywio'r gwaith dylunio sy'n cael ei gynnal cyn cam nesaf y prosiect, sef cyhoeddi Hysbysiad Cyhoeddus.

Rydw i'n gobeithio y bydd yr uchod o gymorth, ond pe hoffech chi gael rhagor o wybodaeth, mae croeso i chi gysylltu â mi gan ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost uchod. Fel arall, pe hoffech chi drafod y materion yma dros y ffôn, e-bostiwch gwasanaethautraffig@rctcbc.gov.uk i drefnu galwad.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'M. Tanner', with a long horizontal stroke extending to the right.

Martyn Tanner
Peiriannydd Cynorthwyol
Rheoli Traffig